

Bwletin Awdurdod S4C
- Tachwedd 2002

Mae'r isod yn crynhoi'r prif bwyntiau a godwyd yn ystod trafodaethau Awdurdod S4C yn ystod ei gyfarfod ar nos Iau, 31 Hydref 2002, a dydd Gwener, 1 Tachwedd 2002.

Sky

Nodwyd bod S4C ar fin dod i gytundeb gyda Sky ac unwaith bod hwn wedi'i arwyddo byddai modd cyhoeddi bod y Sianel ar gael i bawb yn y Deyrnas Gyfunol oedd â blwch ben set lloeren heb iddynt orfod gofyn am y gwasanaeth.

Cyhoeddi Ffigurau Gwyllo

Roedd trafodaethau wedi'u cynnal gyda RSMB (sef yr asiantaeth oedd yn casglu data ar gyfer BARB) i geisio gweld ble yn dechnegol yr oedd pethau wedi mynd o le yn y broses o fesur cynulleidfa S4C. Byddai adroddiad llawnach yn cael ei roi i'r Aelodau maes o law fyddai'n cynnig sail i symud y mater hwn ymlaen.

Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru

Cyfeiriwyd at y newidiadau yn aelodaeth Cabinet y Llywodraeth a nodwyd bod Y Gwir Anrhydeddus Peter Hain, AS, wedi'i benodi fel yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gymru. Roedd y Cadeirydd wedi gyrru llythyr at Peter Hain yn gofyn am gyfarfod a roedd yr Ysgrifennydd Gwladol wedi dangos parodrwydd i gwrdd cyn gynted ag yr oedd yn bosibl.

Cinio ar gyfer cyn-Aelodau'r Awdurdod i ddathlu 20fed Penblwydd S4C

Cyfeiriwyd at y cinio i'w gynnal ar ôl y cyfarfod hwn o'r Awdurdod. Roedd yn dda i fedru adrodd fod pob un o'r cyn-Aelodau wedi derbyn y gwahoddiad heblaw am un oedd bellach yn gweithio yn y Dwyrain Pell (ac yn anffodus bu yna gwpl o ymddiheuriadau funud olaf oherwydd salwch).

Bwrdd OFCOM

Nodwyd bod Gweinidogion wedi cyhoeddi aelodau cyntaf Bwrdd OFCOM a'u bwriad i benodi Yr Athro Ian Hargreaves o Ysgol Newyddiaduraeth Prifysgol Cymru i ymuno â nhw yn hwyrach.

Adolygu Strategaeth

Arweiniodd y Prif Weithredwr yr Awdurdod trwy ei bapur ar adolygu strategaeth a'r prif faterion roedd gofyn i'r Aelodau i'w hystyried. Wedi ystyried y papur yn drwyadl a'r pwyntiau a godwyd yn ystod y drafodaeth, cytunodd yr Awdurdod y dylid derbyn argymhellion y Tîm Rheoli ar gyfer strategaeth y Sianel o ran amcan cyffredinol y gwasanaeth rhaglenni; natur y targedau y dylid eu gosod; y drefn gomisiynu; a'r amserlen.

Y Mesur Cyfathrebu: Rhoi'r Hawl i OFCOM Godi Dirwy ar S4C

Ystyriodd yr Awdurdod lythyr oddi wrth yr Ysgrifennydd Gwladol oedd yn cynnig rhoi hawl i OFCOM godi dirwy ar S4C. Yn benodol nodwyd y byddai'r hyn a fwriadwyd yn golygu y byddai yna, am y tro cyntaf, corff allanol yn gallu codi dirwy ar y BBC a S4C parthed yr hyn oedd yn ymddangos ar y sgrîn. Teimlodd yr Awdurdod fod sefyllfa S4C yn wahanol iawn i'r sianelau annibynnol eraill, a hefyd i'r BBC, a chytunwyd y dylid ysgrifennu yn ôl at yr Ysgrifennydd Gwladol ar y mater.

Cynllun Corfforaethol 2002-04 – Adolygiad hyd at ddiwedd chwarter 3

Ystyriodd yr Awdurdod y cynnydd hyd yma yn erbyn y targedau wedi'u gosod yn y cynllun corfforaethol. Nodwyd bod y mwyafriaf o'r targedau yn cael eu cwrdd. Nodwyd nad oedd hi'n bosibl i adrodd yn llawn ar ffigurau gwyllo oherwydd y sefyllfa oedd yn dal i fodoli ynglyn a phanel BARB.

Adroddiad Cydymffurfiaeth

Ystyriodd yr Awdurdod bapur gan yr Ysgrifennydd parthed ymateb a dderbyniwyd gan y BBC parthed y defnydd o Saesneg yn y rhaglen *Iolo yn Awstralia* a ddarllledwyd ar S4C ar 1 Ebrill 2002. Roedd y mater hwn wedi'i godi yn wreiddiol mewn cyfarfod o'r Grwp Cydymffurfiaeth. Nododd yr Awdurdod y modd y gwnaeth y BBC delio â'r mater hyn yn fewnol. Yn sgil y modd yr oedd y BBC wedi ymateb i'r achos hwn o or-ddefnydd o Saesneg, cytunwyd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Cyflwyniad gan y Pennaeth Datblygu Talent

Rhoddodd y Pennaeth Datblygu Talent gyflwyniad a wnaeth esbonio i'r Aelodau mewn fwy o fanylder natur ei swydd a grëwyd rhyw chwe mis yn ôl. Ymhelaethodd ar ei weledigaeth ar gyfer datblygu talent a'r camau oedd angen eu cymryd. Yn arbennig, nododd bod natur y swydd hon yn golygu bod angen edrych llawer mwy i'r hir dymor a dechrau magu talent lle efallai na fyddai ffrwyth llafur nawr yn cael ei weld am 5, 10 neu hyd yn oed 20 mlynedd. Esboniwyd bod y swydd yma'n atebol yn uniongyrchol i'r Cyfarwyddwr Rhaglenni a bod y Pennaeth Datblygu Talent yn gweithio gyda phob Comisiynydd ym mhob maes. Roedd yna ddau ran i'r swydd: datblygu a talent.

Aethpwyd ymlaen i esbonio sut yr oedd y Pennaeth Datblygu Talent yn gweithio gyda'r comisiynwyr yn unigol i geisio rhoi'r drefn ac egni mwyaf i mewn i bob un prosiect. Roedd yna bellach un gronfa fawr ar gyfer datblygu prosiectau yn hytrach na sawl cyllideb ar gyfer pob comisiynydd. Roedd nawr llawer mwy o bwyslais ar ddatblygu creadigrwydd. Ymhelaethodd ar y modd bwriadwyd gweithio gyda'r cwmnïau cynhyrchu i wireddu hyn.

O ran talent, pwyslais ar ddatblygu unigolion oedd yma. Roedd y Pennaeth Datblygu Talent yn cyfarfod â phobl yn unigol i roi cyngor a thrafod y ffordd orau i ddatblygu eu talentau a gyrfaeodd. Roedd hyn yn ymestyn i actorion, awduron, a chynhyrchwyr. Rhoddwyd esiamplau penodol i'r Aelodau o drafodaethau eisoes wedi'u cynnal gydag unigolion a'r math o syniadau a chasgliadau a ddeilliiodd ohonynt ar gyfer cyfeiriad i'r dyfodol. Roedd hefyd cyfle i weithio fel brocer mewn senario, er enghraifft, lle'r oedd cwmni cynhyrchu yn edrych am fath arbennig o berson a'i fod ef yn gwybod am rywun fyddai'n addas.

Soniwyd hefyd fod y Pennaeth Datblygu Talent bellach yn gyfrifol am gynllun ysgoloriaethau S4C. Fel canlyniad roedd y drefn flaenorol wedi'u newid a nawr roedd llawer llai o ysgoloriaethau yn cael eu rhoi ond gyda symiau o arian tipyn mwy sylweddol ynghlwm

iddynt. Y gobaith oedd y byddai S4C yn elwa o'r cynllun hyn yn y dyfodol wrth i'r llwyddiannus gyfrannu at y Sianel mewn rhyw fodd yn y blynyddoedd i ddod.

Diolchodd yr Awdurdod i'r Pennaeth Datblygu Talent am gyflwyniad diddorol iawn. Fel canlyniad roedd gan yr Aelodau well ddealltwriaeth o'r weledigaeth o sut allai'r swydd newydd hon gyfrannu at ddatblygu talent ar gyfer y dyfodol.

Nawdd

Ystyriodd yr Awdurdod bapur a wnaeth osod allan manylion tri chais am nawdd a thrafodwyd yr hyn a argymhellwyd.

Cytunwyd:

- (a) Sgrîn – Y dylid rhoi nawdd o £5,000 tuag at gynadleddau Ffocws ar Ryngweithio a Ffocws ar Ffilm i'w gynnal yng Nghaerdydd ym mis Tachwedd.
- (b) Y Ffatri Bop – Tra'n cytuno gyda'r egwyddor o noddi'r categori Band Gorau Cymraeg yng Ngwobrau Roc y Ffatri Bop, dylid ail-ystyried maint y swm i'w gynnig.
- (c) Gwyl Shakespeare – Y dylid rhoi nawdd o £1,000 ar gyfer y cinio i'w gynnal ar ddiwedd yr wyl.

Materion Eraill

Yn ogystal trafodwyd/nodwyd y materion canlynol:

- Adroddiad y Prif Weithredwr – Materion er gwybodaeth
- Adroddiad Rhaglenni
- Adroddiad Ariannol
- Adroddiad Cwynion
- Adroddiad y Wifren Gwylwyr
- Adroddiad Ymchwil
- Adroddiad Rheolwr Gyfarwyddwr S4C Masnachol